# POLISI AC AMODAU GWEITHREDOL TALIADAU UNIONGYRCHOL

GWASANAETHAU OEDOLION A PHLANT

GOFAL CYMDEITHASOL

Dyddiad Diweddaru: 23/08/2022.
I'w adolygu bob blwyddyn

## Cynnwys


POLISI AC AMODAU GWEITHREDOL TALIADAU UNIONGYRCHOL ........ 1
Adran A. Polisi a Chefndir Cyfreithiol ........ 3
1 Trosolwg ........ 3
2 Deddfwriaeth a Chanllawiau ........ 3
3 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ........ 3
4 Cynnig Taliadau Uniongyrchol (Gwasanaethau Oedolion) ........ 4
5 Cynnig Taliadau Uniongyrchol (Gwasanaethau Plant) ........ 4
6 Defnyddio Taliadau Uniongyrchol ........ 4
7 Galluedd meddyliol i roi caniatâd, ac Unigolion "Addas" neu "Enwebedig" ........ 5
8 Defnyddio Taliadau Uniongyrchol i Dalu Perthnasau ........ 7
9 Cyfraddau Taliadau Uniongyrchol ........ 7
10 Monitro, Gwerthuso a Datblygiad ........ 7
Adran B. Prosesau Taliadau Uniongyrchol ........ 7
11 Monitro Ariannol a Gwiriadau Archwilio ........ 7
12 Adolygu Cynllun Gofal a Chymorth ........ 8
13 Ymateb i newidiadau yn Lefel yr Angen ac Argyfyngau ........ 8
14 Newidiadau i Gyfanswm y Taliad Uniongyrchol ........ 9
15 Amodau ar Daliadau Uniongyrchol ........ 9
16 Diffyg cydymffurfio gydag amodau ariannol ........ 9
17 Diffyg cydymffurfio ag unrhyw ofynion cynllun gofal ........ 9
18 Ad-dalu Taliadau Uniongyrchol ........ 10
19 Apeliadau ........ 10
20 Peidio â Pharhau gyda Thaliadau Uniongyrchol ........ 10
21 Trefnu gwasanaethau a gomisiynir pan fydd Taliadau Uniongyrchol yn dod i ben ........ 11
Adran C. Canllawiau Ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Plant ........ 11
22 Taliadau Uniongyrchol i Bobl sydd â Chyfrifoldeb Rhiant ........ 11
23 Taliadau Uniongyrchol i Bobl Ifanc ag Anableddau ........ 12
Adran D. Canllawiau Ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion ........ 12
24 Asesu Anghenion Cymwys ........ 12
25 Costau Cynlluniau Gofal, Asesiad Ariannol a Thaliadau ........ 12
26 Recriwtio Diogel o Gynorthwywyr Personol ........ 12
27 Taliad Uniongyrchol i Ofalwyr ........ 13

# Adran A. Polisi a Chefndir Cyfreithiol

## 1 Trosolwg

1.1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i wneud taliadau am anghenion gofal a chymorth yn uniongyrchol i unigolion sy'n gymwys. Mae Taliadau Uniongyrchol yn golygu y gall pobl ddefnyddio dewis, llais a rheolaeth i benderfynu sut i fodloni eu hanghenion gofal a chymorth a chyflawni eu canlyniadau personol.

1.2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) yn cydnabod y gall Taliadau Uniongyrchol greu gwelliannau yn ansawdd bywyd pobl sy'n dymuno rheoli eu cefnogaeth eu hunain. Mae Taliadau Uniongyrchol yn hybu annibyniaeth ac yn helpu gyda chynhwysiant cymdeithasol trwy gynnig cyfleoedd ar gyfer adsefydlu, addysg, cyflogaeth, hamdden a chefnogaeth deuluol i bobl sydd angen gwasanaethau.

1.3 Bydd ymarferwyr yn gweithio gydag unigolion i ddarparu cefnogaeth a gwybodaeth i'w galluogi i ddefnyddio eu Taliad Uniongyrchol i gyflogi staff a/neu brynu gwasanaethau yn uniongyrchol i ddiwallu eu hanghenion a aseswyd. Bydd angen i'r Cyngor fod yn fodlon y gellir defnyddio'r Taliadau Uniongyrchol i sicrhau canlyniadau personol ar gyfer yr unigolyn.

1.4 Os bydd defnyddiwr gwasanaeth unigol yn gwrthod Taliadau Uniongyrchol yna dylai'r Cyngor drefnu gwasanaethau ar eu rhan.

1.5 Mae Gweithdrefn Gwynion yr Adran Gofal Cymdeithasol yn gweithredu mewn perthynas â'r broses ar gyfer Taliadau Uniongyrchol.

## 2 Deddfwriaeth a Chanllawiau

2.1 Mae'r dogfennau canlynol gyda'i gilydd yn ffurfio Polisi ac Amodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam llawn ar gyfer Taliadau Uniongyrchol:

- Canllawiau Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015.
- Canllawiau Aseswyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Llythyr Cynnig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Cytundeb Taliadau Uniongyrchol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

## 3 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

3.1 Mae'r polisi hwn yn cefnogi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion y Cyngor sy'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor a sut y bydd y Cyngor yn ymdrin ag anghydraddoldebau gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da rhwng grwpiau gwahanol o dan y Ddeddf cydraddoldeb 2010.

3.2 Nod y polisi hwn yw cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn perthynas â'r grwpiau cydraddoldeb canlynol (a elwir yn nodweddion a ddiogelir):

- Oedran
- Anabledd
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Ailbennu rhywedd
- Hil
- Crefydd neu gred
- Beichiogrwydd a mamolaeth

- Priodas neu Bartneriaeth Sifil

3.3 Mae'r polisi hwn wedi ymrwymo i gydraddoldeb cyfleoedd, mynediad a gwasanaethau i bawb. Rydym yn anelu i sicrhau fod unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu gofalwyr a'u ffrindiau a'u teulu yn cael eu trin yn deg a gyda pharch.

## 4 Cynnig Taliadau Uniongyrchol (Gwasanaethau Oedolion)

4.1 Mae Taliadau Uniongyrchol ar gael i unigolion newydd a rhai sy'n bodoli, a gall unigolion newid i Daliadau Uniongyrchol unrhyw bryd.

4.2 Gellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol:

- i fodloni anghenion gofal a chymorth oedolyn
- i ddiwallu anghenion cymorth gofalwr.

4.3 Rhaid cynnig Taliadau Uniongyrchol os:

- oes anghenion gofal a chymorth cymwys ar gyfer unigolyn, neu
- anghenion cymorth cymwys ar gyfer gofalwr, a
- yw'r unigolyn neu eu cynrychiolydd yn mynegi dymuniad i gael Taliadau Uniongyrchol a:
  - mae ganddynt y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw, a
  - yn gallu rheoli Taliadau Uniongyrchol.

4.4 **Gall** Taliadau Uniongyrchol gael eu cynnig i bobl yn amodol ar y gofynion a osodir mewn perthynas â cham-drin cyffuriau neu alcohol, ar yr amod fod amodau yn gysylltiedig â'r cytundeb Taliadau Uniongyrchol.

## 5 Cynnig Taliadau Uniongyrchol (Gwasanaethau Plant)

5.1 Mae Taliadau Uniongyrchol ar gael i unigolion newydd a rhai sy'n bodoli, a gall unigolion newid i Daliadau Uniongyrchol unrhyw bryd.

5.2 Gellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol:

- I fodloni anghenion gofal a chymorth plentyn.
- I fodloni anghenion gofal a chymorth gofalwr.

5.3 Rhaid cynnig Taliadau Uniongyrchol os bodlonir yr amodau canlynol:

- mae anghenion gofal a chymorth cymwys ar gyfer plentyn, neu
- anghenion cymorth cymwys ar gyfer gofalwr, a
- pan fo'r unigolyn yn oedolyn sydd â chyfrifoldeb fel rhiant, neu
- plentyn 16 neu 17 oed a
  - mae ganddynt y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw, a
  - yn gallu taliadau uniongyrchol, a
- mae gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion y plentyn, a
- bydd lles y plentyn yn cael ei ddiogelu a'i hyrwyddo trwy wneud y taliadau.

## 6 Defnyddio Taliadau Uniongyrchol

6.1 Gall Taliadau Uniongyrchol fod yn daliad "unigol" ar gyfer digwyddiad neu eitem benodol e.e. gwyliau byr, neu'n rhai "parhaus" dros gyfnod byr neu gyfnod hir. Gellir bodloni holl anghenion neu ran o anghenion unigolion trwy Daliadau Uniongyrchol neu becyn cymysg o gymorth.

6.2 Pan fo anghenion gofal a chymorth cymwys, neu anghenion cymorth gofalwyr, wedi eu hadnabod mewn cynllun gofal a chymorth, gellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol er mwyn cyflawni canlyniadau personol. Er enghraifft:

- Prynu gwasanaethau
- Cyflogi staff yn uniongyrchol
- Cymorth gyda gofal personol
- Cymorth gyda rhyngweithio cymdeithasol
- Seibiant tymor byr
- Gofal preswyl parhaol
- Gwasanaethau cyngor lleol
- Offer
- Gwasanaethau a rennir mewn lleoliadau byw â chymorth/cymunedol
- Unrhyw ffyrdd eraill i gyflawni canlyniadau personol a nodir yn y cynllun gofal a chymorth

6.3 Gall rhai sy'n cael Taliadau Uniongyrchol hefyd "gydgyfrannu" eu taliadau gyda phobl eraill i fodloni anghenion dynodedig a chyflawni canlyniadau cytunedig.

6.4 **Ni ellir** defnyddio Taliadau Uniongyrchol:

- ar gyfer darpariaeth gofal iechyd oni bai ei fod yn ddamweiniol neu'n ategol i wneud rhywbeth arall i ddiwallu anghenion yr unigolyn.
- i brynu gwasanaethau neu offer a fyddai fel arall yn cael eu trefnu gan awdurdodau eraill, er enghraifft, y GIG neu awdurdodau tai. Nid yw'r Taliadau Uniongyrchol yn lle'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

## 7 Galluedd meddyliol i roi caniatâd, ac Unigolion "Addas" neu "Enwebedig".

7.1 I oedolion, rhaid sefydlu os oes gan yr oedolyn y gallu meddyliol i roi caniatâd i gael Taliad Uniongyrchol.

**Unigolyn "Addas"**

7.2 Pan nad oes gan yr unigolyn y gallu meddyliol i roi caniatâd, neu'n blentyn o dan 16, yna gellir gwneud y Taliad Uniongyrchol i Unigolyn Addas sy'n fodlon ac yn briodol.

7.3 Rhaid i'r Unigolyn Addas allu rheoli'r Taliad Uniongyrchol un ai ben eu hunain neu gyda chefnogaeth.

7.4 Ni all yr Unigolyn Addas, o dan unrhyw amgylchiadau, dderbyn y Taliadau Uniongyrchol er mwyn talu ei hun am ddarparu gofal.

7.5 Cyn ystyried os yw Taliadau Uniongyrchol yn ffordd briodol o fodloni anghenion unigolyn (os yw'r unigolyn yn oedolyn heb allu ai peidio), rhaid i'r Cyngor ymgynghori:

- Ag unrhyw un a enwir gan yr unigolyn fel rhywun i ymgynghori â hwy ar y mater.
- Unrhyw un sy'n gysylltiedig yn bresennol â gofalu am yr unigolyn neu sydd â diddordeb arwyddocaol yn lles yr unigolyn.
- Yr unigolyn a gynigir fel Unigolyn Addas.
- Unrhyw un a awdurdodir o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (mewn termau cyffredinol neu benodol) i wneud penderfyniadau am anghenion gofal a chymorth yr unigolyn.

7.6 Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yr Unigolyn Addas yn ffrind agos neu'n aelod o'r teulu sy'n rhan o ofal a chymorth yr unigolyn, neu os yw'r unigolyn yn blentyn rhaid i'r unigolyn addas fod â chyfrifoldeb rhiant. Rhaid blaenoriaethu buddiannau gorau a lles yr unigolyn cyn unrhyw ystyriaethau eraill.

Ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, rhaid rhoi blaenoriaeth o ran Unigolion Addas i'r canlynol:

- Dirprwy a benodwyd gan y llys ar gyfer penderfyniadau lles.
- Unigolyn sydd ag Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer Iechyd a Lles (nid dim ond ar gyfer Cyllid).
- Rhywun sy'n cynnig gweithredu fel yr Unigolyn Addas ac y mae'r Cyngor yn ei ystyried sy'n gweithredu er budd gorau yr unigolyn.
- Rhywun y mae'r Cyngor yn cytuno eu hunain sy'n addas i weithredu fel Unigolyn Addas.
- Rhywun a gyflogir gan sefydliad neu drydydd parti a benodwyd gan y Cyngor i weithredu fel Unigolyn Addas.

7.7 Bydd y Cyngor yn ceisio penodi'r unigolyn a fyddai'n cael ei ddewis neu'n fwyaf tebygol o gael ei ddewis gan yr unigolyn, gan gymryd ystyriaeth o ddymuniadau'r unigolyn pan mae'r rhain yn wybyddus a hanes arwyddocaol arall neu agweddau pwysig ar amgylchiadau'r unigolyn.

7.8 Bydd y Cyngor fel arfer yn derbyn y bydd rhywun sy'n un o'r uchod yn Unigolyn Addas heb archwilio'r unigolyn hwnnw yn gadarnhaol. Fodd bynnag, os nad yw'r Unigolyn Addas a gynigir yn berthynas neu'n ffrind i'r unigolyn sy'n ymwneud â'u gofal, yna bydd y Cyngor yn cael gwiriad GDG ar yr Unigolyn Addas arfaethedig.

7.9 Bydd y trefniadau ar gyfer y Taliad Uniongyrchol yn cael eu trafod gyda theulu'r unigolyn a phartïon perthnasol eraill, ble'n briodol.

7.10 Mae angen i'r Cyngor fod yn fodlon y gall anghenion a chanlyniadau personol yr unigolyn gael eu bodloni trwy Daliadau Uniongyrchol yn cynnwys Unigolyn Addas cyn rhoi hyn mewn lle. Mae angen i'r Cyngor fod yn fodlon bod yr Unigolyn Addas yn gallu rheoli'r Taliad Uniongyrchol, neu os nad yw hynny'n bosib, y gallant gyda chefnogaeth briodol.

7.11 Mae angen i'r Unigolyn Addas ddeall eu bod yn gyfrifol am wneud trefniadau i gael gofal a chymorth i'r unigolyn a rhaid i'w buddiannau gorau fod yn ganolog i'r trefniadau.

7.12 Ar ôl gwneud penderfyniad ynghylch pwy fydd yr Unigolyn Addas, gwneir trefniadau i wneud y Taliadau Uniongyrchol yn daladwy i'r unigolyn hwnnw.

7.13 Yna bydd y polisi a gweithdrefnau arferol Taliadau Uniongyrchol yn berthnasol i'r Unigolyn Addas, gan gynnwys amodau ar Daliadau Uniongyrchol.

7.14 Pan na fydd gan yr unigolyn yn gallu, rhaid i'r Cyngor osod yr amodau canlynol ar y Taliadau Uniongyrchol:

a) Mae'r Unigolyn Addas yn gweithredu er budd gorau yr unigolyn wrth sicrhau darpariaeth gofal a chymorth, a

b) Mae'r Unigolyn Addas yn hysbysu'r Cyngor os ydynt yn credu nad yw'r unigolyn bellach â diffyg gallu.

**Unigolyn "Enwebedig"**

7.15 Bydd Unigolyn Enwebedig yn rheoli'r Taliad Uniongyrchol ar ran unigolyn sydd â gallu. Rôl Unigolyn Enwebedig yw cefnogi'r derbynnydd i weinyddu'r Taliadau Uniongyrchol. Mae'r Unigolyn Enwebedig yn gweinyddu ar ran y derbynnydd ac ni fydd yn gyflogwr. Bydd y cyfrifoldeb o gyflogi unrhyw Gynorthwy-ydd Personol yn dal i fod gyda'r derbynnydd.

## 8 Defnyddio Taliadau Uniongyrchol i Dalu Perthnasau

8.1 Gall y Cyngor gytuno i ddefnyddio'r Taliadau Uniongyrchol i dalu perthynas sy'n byw yn yr un aelwyd â'r unigolyn os yw'r Cyngor yn ystyried ei fod yn angenrheidiol i hyrwyddo lles yr unigolyn. Wrth ystyried y lles rhaid i'r Cyngor gymryd ystyriaeth o farn yr unigolyn, unrhyw Unigolyn Addas, rhiant plentyn, gofalwr yr unigolyn ac unrhyw un a awdurdodir o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol i wneud penderfyniadau am ofal a chymorth.

8.2 Gellir awdurdodi taliadau i dalu'r perthynas un ai:

- am y gofal a'r cymorth i'r unigolyn, neu
- i helpu'r unigolyn sy'n rheoli'r Taliadau Uniongyrchol.

8.3 Pan nad yw'r Cyngor yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i hyrwyddo lles yr unigolyn, rhaid iddynt osod amod na ddylai'r Taliadau Uniongyrchol gael eu defnyddio i dalu perthynas sy'n byw ar yr un aelwyd.

## 9 Cyfraddau Taliadau Uniongyrchol

9.1 Mae'r Adran Gofal Cymdeithasol yn adolygu'r cyfraddau taliadau uniongyrchol yn flynyddol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol.

9.2 Bydd newidiadau i'r cyfraddau fel arfer yn dod i rym ar bob Taliad Uniongyrchol o 1 Ebrill y flwyddyn ariannol nesaf i ganiatáu amser i hysbysu unigolion o'r newidiadau. Bydd y Tîm Taliadau Uniongyrchol yn gyfrifol am hysbysu unigolion.

## 10 Monitro, Gwerthuso a Datblygiad

10.1 Bydd y Tîm Taliadau Uniongyrchol yn gyfrifol am fonitro'r nifer sy'n cael Taliadau Uniongyrchol yn Wrecsam, ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant ac am adrodd i Lywodraeth Cymru yn unol â'r gofynion monitro perfformiad diweddaraf.

10.2 Bydd datblygiad y gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol yn Wrecsam yn cael ei fonitro a'i gyfarwyddo gan Fforwm Taliadau Uniongyrchol Wrecsam neu gyfatebol.

# Adran B. Prosesau Taliadau Uniongyrchol

## 11 Monitro Ariannol a Gwiriadau Archwilio

11.1 Mae'r unigolyn yn atebol i'r Cyngor am sut mae'r Taliad Uniongyrchol yn cael ei wario a disgwylir iddynt ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ei wario fel y cytunwyd.

11.2 Ar gyfer taliadau "penodedig" copi o'r dderbynneb fydd hyn fel arfer.

11.3 Dylai'r derbynnydd Taliadau Uniongyrchol gadw a darparu ar gyfer archwiliad, gyfrifon ariannol sylfaenol, gan gynnwys copïau o slipiau cyflog. Mae gan y Cyngor yr hawl i archwilio'r cofnodion hyn fel rhan o'i weithdrefnau archwilio, pan ofynnir.

11.4 Ar gyfer taliadau parhaus rhaid i'r derbynnydd ddarparu cofnodion ariannol a datganiadau chwarterol i brofi eu bod wedi cael y taliadau a bod yr arian yn cael ei wario fel y cytunwyd (fel nodir yn y Cynllun Gofal a Chymorth). Dylai'r derbynnydd gadw pob derbynneb a

manylion taliadau a wnaed mewn perthynas ag yswiriant neu ddidyniadau treth. Bydd y datganiad cyntaf fel arfer dri mis ar ôl dechrau'r taliadau ac yna bob tri mis.

11.5 Bydd y taliadau a chofnodion ariannol yn cael eu monitro a'u hadolygu o leiaf bob chwarter. Bydd unrhyw arian heb ei wario neu dros-daliad yn cael eu hadfer.

## 12 Adolygu Cynllun Gofal a Chymorth

12.1 Nid yw'r ffaith bod y Cyngor yn gwneud Taliadau Uniongyrchol yn hytrach na threfnu gwasanaethau yn effeithio ar ei gyfrifoldeb i adolygu pecynnau gofal yn rheolaidd.

12.2 Mae unigolion neu Unigolion Addas a benodir sy'n cael Taliadau Uniongyrchol yn cymryd eu cyfrifoldeb eu hunain am sicrhau bod eu pecyn gofal yn cael ei ddarparu a'i fod yn briodol, yn unol â'r Cynllun Gofal a Chymorth a gytunwyd. Mae'r Cyngor yn fwy 'ar hyd braich', er mai'r Cyngor sydd dal yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion gofal unigolyn yn cael eu bodloni'n briodol a bod y Taliad Uniongyrchol yn cael ei wario i gyflawni canlyniadau personol.

12.3 Bydd **amlder** yr adolygu yn adlewyrchu'r amser mae'r unigolyn wedi rheoli Taliad Uniongyrchol a bydd eu hamgylchiadau yn dibynnu ar bolisi lleol.

12.4 Mae angen i'r Cyngor adolygu Taliadau Uniongyrchol o fewn y chwe mis cyntaf ac yna 12 mis yn dilyn yr adolygiad cyntaf. Yna bydd yr adolygiadau yr un mor aml ag unigolion eraill. Bydd hyn yn adlewyrchu safonau gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

12.5 Gellir cynnal adolygiadau yn fwy aml pan fo sefyllfa yn ansefydlog neu os oes pryderon am reoli'r Taliad Uniongyrchol.

12.6 Gall y Cyngor a'r unigolyn, neu unrhyw un sy'n eu helpu gyda'r taliad uniongyrchol, ofyn am adolygiad os yw amgylchiadau yn newid neu os oes pryderon neu anawsterau.

12.7 **Pwrpas** yr adolygiad yw sefydlu:

- Os yw anghenion yr unigolyn wedi newid.
- Os yw canlyniadau'r cynllun gofal a chymorth yn cael eu bodloni.
- Bod anghenion yr unigolyn yn cael eu bodloni a bod yr anghenion hyn yn parhau i fod yn gymwys i gael gwasanaeth.
- Bod y taliadau yn cael eu defnyddio i sicrhau'r canlyniadau personol a nodir yn y Cynllun Gofal a Chymorth.
- Os yw'r unigolyn yn rheoli eu Taliad Uniongyrchol ac angen newid yn lefel y gefnogaeth a gânt.
- Os yw'r unigolyn yn fodlon gyda'r gwasanaethau maent yn ei gael.

12.8 Dylid codi unrhyw bryderon am allu unigolyn/Unigolyn Addas i reoli'r Taliadau Uniongyrchol yn uniongyrchol gyda nhw cyn gynted â phosib heb aros am adolygiad a drefnwyd.

## 13 Ymateb i newidiadau yn Lefel yr Angen ac Argyfyngau

13.1 Mae gan yr unigolyn gyfrifoldeb i hysbysu'r Asesydd/Cyngor o unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn lefel yr angen a allai effeithio ar swm y Taliadau Uniongyrchol.

13.2 Rhaid i unigolion sy'n cael Taliad Uniongyrchol gynllunio ar gyfer sut fyddent yn dygymod gyda chynnydd byrdymor yn eu hanghenion a/neu argyfyngau e.e. absenoldebau staff.

13.3 Os yw lefel yr angen yn cynyddu ac mae'r gost o fodloni hyn yn uwch nag unrhyw arian wrth gefn sydd ar gael, bydd angen ailasesiad.

13.4 Dylai'r Asesydd sicrhau fod cynllun wrth gefn ar gyfer argyfyngau wedi ei gynnwys yng Nghynllun Gofal a Chymorth yr unigolyn.

13.5 Os yw'r cynlluniau wrth gefn yn methu, ac nid yw'n bosib gallu bodloni anghenion yr unigolyn, yna mae'r Cyngor yn gyfrifol am drefnu gwasanaethau i ddiwallu anghenion sydd o flaenoriaeth. Er mwyn bodloni anghenion ar fyr rybudd efallai y bydd gostyngiad mewn cymorth, neu efallai y bydd angen cynnig gwasanaeth gwahanol e.e. gwasanaethau dydd neu wasanaethau preswyl.

13.6 Pan nad yw unigolyn angen eu Taliadau Uniongyrchol am gyfnod byr ond arwyddocaol, h.y. mwy na 4 wythnos, gall y Taliad Uniongyrchol gael ei atal am y cyfnod hwnnw.

13.7 Ar ôl 4 wythnos mewn ysbyty dylai'r Taliad Uniongyrchol gael ei atal. Dylai'i Rheolwr Tîm gytuno i unrhyw amrywiant i hyn a'i gofnodi'n glir. Mae'r ymarferydd yn gyfrifol am hysbysu cyllid.

## 14 Newidiadau i Gyfanswm y Taliad Uniongyrchol

14.1 Dylid ystyried gwybodaeth o adolygiadau ac archwiliad mewn unrhyw benderfyniad i newid y cyfanswm, atal neu geisio ad-daliad o Daliad Uniongyrchol.

14.2 Gall cyfanswm y taliad gael ei gynyddu, ei ostwng neu ei atal i adlewyrchu anghenion sy'n newid. Rhaid i gynlluniau Gofal a Chymorth gael eu diweddaru hefyd i adlewyrchu newidiadau.

## 15 Amodau ar Daliadau Uniongyrchol

15.1 Gall y Cyngor wneud y Taliad Uniongyrchol yn amodol ar amodau, er enghraifft:

- efallai nad yw'r anghenion yn cael eu bodloni gan unigolyn penodol.
- rhaid i dderbynnydd y Taliad Uniongyrchol ddarparu gwybodaeth a ofynnir amdano yn rhesymol gan y Cyngor i sicrhau bod y Taliadau Uniongyrchol yn ffordd briodol o fodloni anghenion yr unigolyn.

## 16 Diffyg cydymffurfio gydag amodau ariannol

16.1 Os oes diffyg cydymffurfio gydag amodau monitro, bydd y Tîm Taliadau Uniongyrchol yn ysgrifennu llythyr atgoffa i'r unigolyn yn gofyn am y wybodaeth angenrheidiol gydag uchafswm o 4 wythnos i gydymffurfio.

16.2 Os yw'r unigolyn yn methu ag ymateb o fewn y cyfnod 4 wythnos a nodwyd bydd y Tîm Taliadau Uniongyrchol yn cysylltu â'r Rheolwr Tîm Gofal Cymdeithasol priodol am wybodaeth ar unrhyw ffactorau a all atal yr unigolyn rhag ymateb.

16.3 Bydd y Tîm Taliadau Uniongyrchol, mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol, yn penderfynu os oes angen addasiadau rhesymol a ellir eu gwneud i'r amodau monitro i alluogi'r unigolyn i gydymffurfio a'r amodau Taliadau Uniongyrchol.

16.4 Os na ellir gwneud addasiadau rhesymol, rhoddir rhybudd i'r unigolyn y bydd Taliadau Uniongyrchol yn cael eu hatal.

## 17 Diffyg cydymffurfio ag unrhyw ofynion cynllun gofal

17.1 Bydd y Rheolwr Tîm Gofal Cymdeithasol priodol yn cael ei hysbysu os er enghraifft:

- nid yw'r Taliadau Uniongyrchol wedi eu defnyddio i brynu'r gwasanaethau a nodwyd yn y Cynllun Gofal a Chymorth
- yw'r Taliadau Uniongyrchol wedi eu defnyddio i brynu gwasanaeth gan unrhyw un a nodir sydd wedi eu gwahardd.

- unrhyw dystiolaeth arall sy’n awgrymu nad yw’r Taliadau Uniongyrchol wedi eu rheoli’n briodol neu’n effeithiol.

17.2 Os yw unigolyn yn methu a chydweithredu gydag adolygiad, gall y Cyngor benderfynu ar ei gynnig o wasanaeth yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, os yw hyn yn anymarferol mae gan y Cyngor yr hawl i beidio â gwneud cynnig yn seiliedig ar y gwrthodiad i dderbyn gwasanaethau trwy ymddygiad afresymol.

17.3 Bydd y Rheolwr Tîm yn ysgrifennu at yr unigolyn yn egluro'r pryderon am ddiffyg cydymffurfio ac y bydd adolygiad o’r gefnogaeth Taliadau Uniongyrchol yn cael ei gynnal.

17.4 Anfonir copi o’r adolygiad at y Pennaeth Gwasanaeth priodol.

17.5 Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn penderfynu os yw’r defnydd o’r Taliadau Uniongyrchol yn cydymffurfio gydag amodau Gofal Cymdeithasol, os dylid ad-dalu neu ddiddymu unrhyw wariant amhriodol, ac os yw’n briodol i Daliadau Uniongyrchol barhau ac adrodd yn ôl i’r Tîm Taliadau Uniongyrchol.

17.6 Bydd y Tîm Taliadau Uniongyrchol yn ysgrifennu at yr unigolyn gyda chanlyniad yr adolygiad a phenderfyniad y Pennaeth Gwasanaeth.

17.7 Os canfyddir diffyg cydymffurfio parhaus, bydd y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yn penderfynu os dylid diddymu’r Taliadau Uniongyrchol.

## 18 Ad-dalu Taliadau Uniongyrchol

18.1 Bydd y Cyngor yn ceisio ad-daliad os oes:

- Gordaliad.
- Tanwariant sylweddol ac arian wrth gefn nad yw’n cynnwys cronfeydd ar gyfer treth, gwyliau, a chynlluniau wrth gefn h.y. absenoldeb staff etc.
- Diffyg cydymffurfio ag amodau ariannol y gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol.
- Diffyg cydymffurfio ag amodau Gofal Cymdeithasol.

18.2 Dylid ystyried cyfrifoldebau cytundebol parhaus, e.e. terfynu cyflogaeth, atebolrwydd dileu swydd etc.

18.3 Gall y Cyngor benderfynu atal neu ostwng y Taliadau Uniongyrchol am gyfnod tra bod yr unigolyn yn defnyddio'r gordaliad/arian wrth gefn i ariannu eu gofal.

## 19 Apeliadau

19.1 Hysbysir yr unigolyn yn ysgrifenedig o'u hawl i apelio yn erbyn penderfyniad ad-daliad trwy’r Weithdrefn Cwynion Gofal Cymdeithasol.

## 20 Peidio â Pharhau gyda Thaliadau Uniongyrchol

20.1 Gall yr unigolyn, neu unigolyn addas ble’n briodol, benderfynu nad ydynt bellach yn dymuno parhau gyda’r Taliad Uniongyrchol.

20.2 Os yw un ai derbynnydd y Taliad Uniongyrchol neu’r Cyngor eisiau stopio’r Taliad Uniongyrchol rhaid cynnal adolygiad i drafod camau pellach. Rhaid gwneud cofnod o'r rhesymau a phryd fydd y taliadau yn cael eu hatal a'i anfon at bawb sy'n ymwneud â’r trefniant hwnnw. Pryd bynnag fo’n bosib dylid caniatáu cyfnod rhybudd o 28 diwrnod.

## 21 Trefnu gwasanaethau a gomisiynir pan fydd Taliadau Uniongyrchol yn dod i ben

21.1 Pan fo Taliad Uniongyrchol yn dod i ben, efallai y bydd gan y derbynnydd dal rwymedigaethau i'w cyflawni. Bydd angen rhoi cyfnod addas o rybudd i'r Cynorthwy-ydd Personol, Darparwr(wyr) Gofal, neu Fenter-micro.

21.2 Bydd y Tîm Taliadau Uniongyrchol yn sicrhau bod arian yn parhau i fod ar gael i gyflawni rhwymedigaethau cytundebol, un ai i dalu Cymhorthydd(wyr) Personol, neu i dalu balans terfynol i Ddarparwr Gofal neu Fenter-micro.

21.3 Bydd y Tîm Gofal Cymdeithasol perthnasol yn gwneud trefniadau amgen ar gyfer bodloni anghenion gofal cymunedol yr unigolyn.

21.4 Pan fydd y trefniadau hyn wedi eu rhoi mewn lle bydd cadarnhad o'r dyddiad pan fydd Taliadau Uniongyrchol yn dod i ben a bydd y trefniadau a gomisiynir yn dechrau yn cael ei anfon i'r derbynnydd.

# Adran C. Canllawiau Ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Plant

## 22 Taliadau Uniongyrchol i Bobl sydd â Chyfrifoldeb Rhiant

22.1 Dylai'r Cyngor ond drefnu Taliad Uniongyrchol i riant plentyn anabl pan fônt yn fodlon y bydd y rhiant yn gwneud trefniadau a luniwyd i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn a bodloni eu hanghenion gofal a chymorth.

22.2 Rhaid i staff egluro'r camau yn glir sy'n rhaid i bobl sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn anabl eu cymryd i fodloni eu hunain bod yr unigolyn sy'n cynnig cymorth gyda gofal eu plentyn yn addas.

22.3 Mae'r Cyngor yn disgwyl i unigolyn sy'n ystyried cyflogi unigolyn i ofalu am eu plentyn a ariennir gan Daliad Uniongyrchol, i ofyn i'r Cyngor gynnal archwiliadau trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd taerineb rhieni ar gyflogi unigolyn sy'n anaddas yn ôl archwiliad o'r fath yn ffactor ym mhenderfyniad y Cyngor i ddefnyddio ei ddisgresiwn ai peidio wrth wneud Taliadau Uniongyrchol. Mae hyn yn berthnasol i bobl anabl 16 ac 17 oed sy'n dymuno cael Taliad Uniongyrchol i fodloni eu hanghenion a aseswyd.

22.4 Bydd y Cyngor, wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn sicrhau bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc sy'n cael Taliadau Uniongyrchol yn cael eu canfod a'u hystyried. Bydd y Cyngor yn ystyried pwysigrwydd darparu cefnogaeth i alluogi'r plentyn neu'r unigolyn ifanc i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno ef/hi, i'r graddau sy'n briodol i'r amgylchiadau, yn arbennig pan fo gallu'r unigolyn i gyfathrebu yn gyfyngedig am unrhyw reswm.

22.5 Bydd y Cyngor, yn unol â'i ddyletswyddau statudol a amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn sicrhau y bydd plant a phobl ifanc sydd wedi eu hasesu fel bod angen gwasanaethau gofal a chymorth, yn cael eu hysbysu, a chael cynnig, mynediad at wasanaethau eiriolaeth fel rhan o'r broses asesu.

22.6 Mae'r Cyngor yn cadw ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i asesu, ble'n briodol, adolygu anghenion plant anabl a'u teuluoedd yn y ffordd arferol.

## 23 Taliadau Uniongyrchol i Bobl Ifanc ag Anableddau

23.1 Gall pobl ifanc 16 ac 17 oed anabl ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol, pan fo hyn er eu buddiannau gorau, i brynu gwasanaethau a aseswyd eu bod angen, nid gwasanaethau i gefnogi aelodau eraill o deulu'r unigolyn ifanc anabl.

23.2 Gall unigolyn anabl ifanc yn 16 neu'n 17 oed ddymuno, fel rhan o dyfu yn oedolyn, gymryd rheolaeth o ran(nau) neu'r holl Daliad Uniongyrchol a reolwyd gan yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant.

23.3 Wrth wneud y penderfyniad i wneud Taliad Uniongyrchol i rywun anabl 16 neu 17 oed, dylai'r Cyngor gydbwyso dymuniadau a theimladau'r unigolyn ifanc gyda barn y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant.

23.4 Rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon y bydd y trefniadau yn diogelu a hyrwyddo lles y plentyn a bodloni eu hanghenion a aseswyd a chanlyniadau personol.

23.5 Pa bynnag benderfyniadau a wneir pan fo'r plentyn anabl yn cyrraedd 16 neu 17, ni all pobl sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn anabl barhau i gael Taliadau Uniongyrchol i brynu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion y plentyn hwnnw ar ôl i'r plentyn gyrraedd 18. Os ydynt yn bwriadu parhau yn eu swyddogaeth ofalu, efallai y byddant yn gymwys i gael Taliadau Uniongyrchol yn hytrach na gwasanaethau gofalwyr a ddarperir yn uniongyrchol gan y Cyngor o dan ddarpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

# Adran D. Canllawiau Ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion

## 24 Asesu Anghenion Cymwys

24.1 Cynhelir asesiad o anghenion unigolyn o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid yw'r meini prawf ar gyfer Taliadau Uniongyrchol yn wahanol i'r rhai ar gyfer unrhyw wasanaeth arall. Ni ddylai unigolion gael mwy neu lai o wasanaeth oherwydd eu bod wedi dewis cael eu gwasanaeth trwy Daliad Uniongyrchol.

24.2 Bydd yr Ymarferydd priodol yn cwblhau asesiad, sydd yr un fath i'r rhai sydd eisiau Taliadau Uniongyrchol a'r rhai sydd eisiau i'r Adran Gofal Cymdeithasol drefnu eu cymorth.

## 25 Costau Cynlluniau Gofal, Asesiad Ariannol a Thaliadau

25.1 Rhaid i wasanaethau gael eu cytuno a'u trefnu yn unol â'r prosesau Awdurdod Lleol mewnol.

25.2 Gall y Rheolwr Tîm gymeradwyo pecynnau bychan o ofal a phecynnau gofal ar gyfer unigolion sy'n bodoli ble nad oes newid mewn angen neu gynnydd mewn cost, h.y. pan delir y pecyn sy'n bodoli o Gyllideb Gofal Cartref allanol y gwasanaeth perthnasol.

## 26 Recriwtio Diogel o Gynorthwywyr Personol

26.1 Pan fo unigolyn yn ystyried cyflogi rhywun i ddarparu cymorth a ariennir gan Daliad Uniongyrchol, mae'r Cyngor yn argymell y gofynnir iddynt gwblhau'r broses recriwtio diogel trwy'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol sy'n cynnwys archwiliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Ar gyfer pob derbynnydd ble mae plentyn yn cael Taliadau Uniongyrchol, neu blant yn nhŷ'r derbynnydd, rhaid cwblhau archwiliad GDG ar bob Cynorthwy-ydd Personol. Os yw unigolyn yn mynnu cyflogi rhywun sy'n anaddas gall y Cyngor benderfynu atal y Taliad Uniongyrchol os ydynt yn ystyried bod yr unigolyn mewn risg sylweddol.

## 27 Taliad Uniongyrchol i Ofalwyr

27.1 Mae Taliadau Uniongyrchol yn caniatáu i ofalwyr brynu gwasanaethau yr asesir eu bod eu hangen fel gofalwyr i'w cefnogi i ofalu ac i gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain. Ni all gofalwyr (heblaw'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant yn gofalu am blant) gael Taliad Uniongyrchol i brynu gwasanaethau i fodloni anghenion a aseswyd yr unigolyn sy'n cael y gofal. Yn y sefyllfa hon gwneir y Taliad Uniongyrchol i'r unigolyn nid y gofalwr.

27.2 Rhaid cynnal Asesiad Gofalwr wrth ystyried gofalwr fel derbynnydd Taliadau Uniongyrchol.